


#CaruDarlhen

Dewch i sôn am lyfrau!

Heriau ac
adnoddau i
feithrin sgiliau
adolygu llyfrau



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Her 1

Beth sy'n gwneud llyfr 'da'?

Adnodd 1

Gweithgareddau

- Trafodwch eich hoff lyfrau darllen. Rhannwch eich hoff deitlau ac esbonio'n fras pam eich bod yn hoffi'r llyfrau hynny.

- Trafodwch yr hyn sy'n eich denu at lyfr yn y lle cyntaf (y clawr/broliant/awdur adnabyddus/argymhelliad ffrind neu athro/pwnc neu thema sy'n apelio, ayyb).

Arweiniwch y drafodaeth at rôl adolygiadau wrth ddenu darllenwyr at lyfrau.

- Edrychwch ar enghreifftiau o adolygiadau fel dosbarth cyfan ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol (ceir enghreifftiau addas ar wefan www.gwales.com a www.sonamlyfra.cymru.) Trafodwch yn fras y cynnwys, y strwythur a'r arddull.

Cwestiynau Allweddol

- Pa fath o lyfrau ydych chi'n mwynhau eu darllen?
- Beth yw eich hoff lyfr?
- Beth sy'n gwneud llyfr 'da'?
- Beth sy'n eich denu at lyfr yn y lle cyntaf?

- Sut fedrwch chi ganfod gwybodaeth am lyfr cyn mynd ati i'w ddarllen er mwyn penderfynu os yw'n apelio atoch ai peidio?
- Dychmygwch eich bod yn un o feirniaid cystadleuaeth fel cystadleuaeth Tir na n-Og. Am beth fydddech chi'n chwilio mewn llyfr buddugol?

- Beth sy'n debyg/gwahanol am yr adolygiadau?
- Pa nodweddion ydych chi'n sylwi arnyn nhw, o ran cynnwys/strwythur/arddull?
- Pa derminoleg yn ymwneud â llyfrau sy'n cael ei defnyddio yn yr adolygiadau?
- Oes rhaid i adolygiadau fod yn rhai ysgrifenedig? Ydy adolygiadau llafar yn gallu bod yn effeithiol? Pam/pam ddim?

Geirfa/ Nodweddion leithyddol

Ymadroddion mynegi barn:

- Fy hoff lyfr yw... oherwydd...
- Mae'n llyfr da oherwydd...
- Rwy'n mwynhau llyfrau... oherwydd...
- Yn fy marn i mae llyfr da yn...
- Mae hwn yn adolygiad 'da' oherwydd...
- Byddai hwn yn adolygiad gwell pe bai...

Terminoleg yn ymwneud â llyfrau:

Teitl, llyfr ffeithiol, ffuglen, nofel, casgliad o straeon, barddoniaeth, cyfres, awdur, darlunydd, clawr blaen, clawr cefn, broliant, pennod, cyhoeddwr, digwyddiadau, themâu, genre, naratif, adeiladwaith, dechrau, canol, diweddgllo, cryfderau/gwendidau.

Y llyfr hwn
y stori hon
y nofel hon
y gyfrol hon

Geirfa:

Cynnwys, arddull, strwythur, ffurf, nodweddion.



Her 2

Beth sy'n gwneud adolygiad 'da' o lyfr?

Adnodd 1, 1a

Adnodd 2

Gweithgareddau

- Gweithiwch mewn paru/grwpiau bach er mwyn edrych yn fanylach ar enghraifft o adolygiad ac adnabod y nodweddion, o ran cynnwys, strwythur ac arddull. (Gallai fod yn un o'r enghreifftiau a drafodwyd eisoes fel dosbarth, yn enghraifft o waith disgybl arall neu'n un a baratowyd at y pwrpas – gweler **Adnodd 1**). Gallwch gofnodi syniadau ar Post-its.

- Dewch o hyd i enghreifftiau o nodweddion penodol yn yr adolygiad a'u huwchleuo mewn pensiliau o wahanol liwiau (canolbwyntiwch ar nodweddion arddull megis y defnydd o'r person cyntaf, berfau'r presennol wrth gyfeirio at y stori, ymadroddion mynegi barn, iaith berswadiol, amrywio cychwyn brawddegau, ansoddeiriau pwerus, cysylltion; a nodweddion strwythur/cynnwys megis gwybodaeth gefndirol am y llyfr, cyfeiriad cryno at gynnwys y stori, cyfeiriad at arddull y llyfr ac at yr awdur, ayyb.). Bydd angen iddynt greu allwedd i'r nodweddion hefyd. (Gweler **Adnodd 2**). Anogwch y disgyblion i rannu eu syniadau â gweddill y dosbarth ar ôl cwblhau'r dasg.

- Ewch ati fel dosbarth cyfan (neu gallai'r disgyblion weithio'n annibynnol) i bennu meini prawf llwyddiant (MPLI) adolygiad o lyfr, gan ystyried y nodweddion a drafodwyd uchod. (Gall y MPLI gael eu lefelu i gwrdd ag anghenion neu oed gwahanol ddisgyblion y dosbarth.)

Cwestiynau Allweddol

- Pa nodweddion ydych chi'n sylwi arnyn nhw yn yr adolygiad hwn?
- Ydy hwn yn adolygiad 'da'? Pam/pam ddim?
- Beth sy'n gwneud adolygiad 'da'?
- A fyddai modd gwella ar yr adolygiad hwn? Sut?

- Fedrwch chi ddod o hyd i enghreifftiau o'r person cyntaf/ymadroddion mynegi barn/gwybodaeth gefndirol am y llyfr a'r awdur, ayyb, yn yr adolygiad hwn?

- Beth yw MPLI adolygiad o lyfr, yn eich barn chi?

Geirfa/ Nodweddion leithyddol

Ymadroddion mynegi barn:

- Fy hoff lyfr yw... oherwydd...
- Mae'n llyfr da oherwydd...
- Rwy'n mwynhau llyfrau... oherwydd...
- Yn fy marn i mae llyfr da yn...
- Mae hwn yn adolygiad 'da' oherwydd...
- Byddai hwn yn adolygiad gwell pe bai...

Terminoleg yn ymwneud â llyfrau:

Teitl, llyfr ffeithiol, ffuglen, nofel, casgliad o straeon, barddoniaeth, cyfres, awdur, darlunydd, clawr blaen, clawr cefn, broliant, pennod, cyhoeddwr, digwyddiadau, themâu, genre, naratif, adeiladwaith, dechrau, canol, diweddglô, cryfderau/gwendidau.

Y llyfr hwn
y stori hon
y nofel hon
y gyfrol hon

Geirfa:

Cynnwys, arddull, strwythur, ffurf, nodweddion.



Her 3

Cynllunio adolygiad o lyfr

Adnodd 3

Adnodd 4

Gweithgareddau

- Atgoffwch eich gilydd o waith y wers ddiwethaf ar nodweddion adolygiad o lyfr. Nodwch y nodweddion/MPLI ar *Post-its*.

- Rydych yn mynd i lunio adolygiadau llafar ac ysgrifenedig o'r llyfr rydych wedi ei ddarllen o restr Darllen Dros Gymru/BookSlam/Gwobrau Tir na n-Og eleni.

- Trafodwch sut i fynd ati i drefnu a chynllunio syniadau cyn ysgrifennu. (Gellid defnyddio taflen gynllunio tebyg i'r un yn **Adnodd 3**, er enghraifft).
- Trafodwch sut mae'r blychau ar y daflen gynllunio yn cynrychioli cynnwys pob paragraff yn yr adolygiad. Trafodwch sut i fynd ati i lenwi pob blwch ar y daflen â nodiadau bras/pwyntiau bwled. Modelwch os oes angen.
- Ewch ati i gynllunio adolygiad (defnyddiwch **Adnodd 3** neu ddiagram cynllunio o'ch dewis. Defnyddiwch y Pyramidiau Geirio yn **Adnodd 4** i'ch cynorthwyo os oes angen).

Cwestiynau Allweddol

- Beth yw nodweddion/MPLI adolygiad o lyfr?

- Ydych chi'n hoffi'r llyfr? Pam/pam ddim?
- Beth yw prif gryfderau/gwendidau'r llyfr?

- Beth yw'r prif bwyntiau/wybodaeth i'w cynnwys yn eich adolygiad?
- Sut ydych chi'n mynd i gynllunio eich gwaith cyn ysgrifennu?
- Sut mae trefnu eich gwaith ar daflen gynllunio?
- Ble ydych chi'n mynd i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol am y llyfr (e.e. dyddiad cyhoeddi, cyhoeddwr, darlunydd, gwybodaeth am yr awdur, ayyb)?
- Faint o wybodaeth ydych chi'n mynd i'w datgelu am y plot? Pam na ddylech chi ddatgelu gormod?

Geirfa/ Nodweddion leithyddol

Nodweddion, Meini Prawf
Llwyddiant, cryfderau,
gwendidau.

Terminoleg yn ymwneud â llyfrau:

Teitl, llyfr ffeithiol, ffuglen,
nofel, casgliad o straeon,
barddoniaeth, cyfres, awdur,
darlunydd, clawr blaen,
clawr cefn, broliant, pennod,
cyhoeddwr, digwyddiadau,
themâu, genre, naratif,
adeiladwaith, dechrau, canol,
diwedd glo, cryfderau/
gwendidau.

Geirfa:

Cynnwys, arddull, strwythur,
ffurf.

Adnodd 4 – Pyramid Geirio
adolygiad o lyfr



Her 4

Dewch i Draford

Adnodd 4

Adnodd 5

Adnodd 6

Gweithgareddau

- Trafodwch y cwestiynau ar y cardiau 'Dewch i drafod...' (**Adnodd 5**) fel dosbarth cyfan. Sut fyddwch yn mynd ati i'w hateb? Pa fath o iaith/ymadroddion/patrymau brawddegol fyddai'n addas i'w defnyddio?
- Ewch ati i ymarfer drilio geirfa/patrymau brawddegol/ymadroddion mynegi barn addas fel dosbarth cyfan (Defnyddiwch **Adnodd 6 – Mat Geirfa adolygiad o lyfr**).

- Gweithiwch mewn parau. Rydych yn mynd i gyfwd eich gilydd ar lafar ynglŷn â'r llyfr y byddwch yn eu hadolygu gan ddefnyddio'r cwestiynau ar y cardiau 'Dewch i Draford...' (Gallwch ddefnyddio'r cynllun a baratowyd gennych ar gyfer Her 2 fel cymorth wrth ateb y cwestiynau os oes angen).
- Gallwch ddefnyddio'r Mat Geirfa (**Adnodd 6**) a/neu'r pyramid geirio (**Adnodd 4**) er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau ar lafar.
- Ar ôl ymarfer holi ac ateb y cwestiynau mewn parau gallech wahodd ambell bâr i 'gyfwd' ei gilydd o flaen gweddill y dosbarth.

Cwestiynau Allweddol

- Sut fydddech chi'n mynd ati i ateb y cwestiwn hwn?
- Pa eirfa/ymadroddion/patrymau brawddegol fyddai'n addas i'w defnyddio er mwyn ateb y cwestiwn hwn?

Geirfa/ Nodweddion leithyddol

Gweler

Adnodd 4 –

*Pyramid Geirio
adolygiad o lyfr,*

Adnodd 5 –

*cardiau 'Dewch
i Draford'*

Adnodd 6 –

*Mat Geirfa
adolygiad o lyfr*



Her 5

Ysgrifennu adolygiad o lyfr

Adnodd 4

Adnodd 6



Gweithgareddau

- Adolygwch y pwyntiau blaenorol:
 - Adnabod pwrpas a nodweddion adolygiad o lyfr;
 - Pennu MPLI adolygiad o lyfr;
 - Cynllunio adolygiad o lyfr;
 - Drilio geirfa, ymadroddion, patrymau brawddegol a iaith mynegi barn addas i'w defnyddio mewn adolygiad o lyfr.

- Ewch ati i ysgrifennu enghraifft o baragraff cyntaf adolygiad o lyfr ar y cyd fel dosbarth.
- Edrychwch yn ofalus ar eich cynllun o adolygiad o lyfr o Her 2 a'r MPLI a bennwyd gennych yn Her 1 cyn mynd ati i gychwyn ysgrifennu eich adolygiad.

Cwestiynau Allweddol

- Beth yw pwrpas adolygiad o lyfr?
- Beth yw prif nodweddion adolygiad o lyfr?
- Beth yw'r MPLI ar gyfer adolygiad o lyfr?
- Sut mae'r daflen gynllunio yn mynd i'ch helpu chi i ysgrifennu eich adolygiad?
- Pa fath o eirfa/iaith/ymadroddion fydd angen i chi eu cynnwys yn eich adolygiad?
- Sut allwch chi geisio sicrhau bod eich adolygiad chi yn un 'da'

Geirfa/ Nodweddion leithyddol

Gweler

Adnodd 4 –

*Pyramid Geirio
adolygiad o lyfr*

Adnodd 6 –

*Mat Geirfa
adolygiad o lyfr*

Her 6

Hunanasesu a gwella'r adolygiad

Adnodd 7

Gweithgareddau

- Darllenwch dros yr adolygiad o lyfr a ysgrifennwyd gennych yn y gwersi blaenorol. Ystyriwch y MPLI a bennwyd gennych yn Her 1 er mwyn penderfynu os yw'r adolygiad yn un 'da' ai peidio.
- Hunanaseswch eich gwaith gan ddefnyddio'r dull dwy seren a dymuniad (**Adnodd 7**). Gallech hefyd asesu gwaith eich gilydd yn unol â'r MPLI (eto gweler **Adnodd 7**).
- Ailddrafftioch eich gwaith gan ystyried eich sylwadau wrth hunanasesu'r drafft cyntaf.
- Ewch ati i greu adolygiadau llafar o'r llyfrau, yn seiliedig ar eich hadolygiadau ysgrifenedig ar ffurf hysbyseb neu gyfweiliad. Ffilmiwch a'u rhannu'n ehangach - trwy wefan/cyfri Trydar yr ysgol. Tagiwch @LlyfrDaFabBooks #carudarllen #lovereading
Anfonwch eich gwaith at cllc.plant@llyfrau.cymru i'w gyhoeddi ar gwales.com

Cwestiynau Allweddol

- Ydych chi wedi ysgrifennu adolygiad 'da'? Pam/pam ddim?
- Sut allwch chi wella ar eich adolygiad?
- Ydy'r ail ddrafft yn 'well' na'r drafft cyntaf? Pam?

Geirfa/ Nodweddion leithyddol

MPLI, hunanasesu, asesu cyfoed, drafft cyntaf, ail ddrafft, dwy seren a dymuniad, cryfderau/gwendidau.



T. Llew Jones *Tân ar y Comin*



Nofel enwog gan T. Llew Jones yw *Tân ar y Comin*, ac fe gafodd ei chyhoeddi gyntaf gan wasg Gomer yn 1975. Clawr argraffiad 2018 sydd yn y llun. Ond er bod y stori dros 40 oed, mae'n dal yn stori wych ac mae plant o bob oed dal yn gwirioni arni.

Fe ysgrifennodd T. Llew Jones dros hanner cant o lyfrau. Falle eich bod wedi darllen rhai ohonyn nhw – *Dirgelwch yr Ogorf* a *Trysor Plasywernen* – ond dwi'n meddwl bod *Tân ar y Comin* yn un o'r rhai gorau. Dwi'n hoffi'r clawr gyda'i liwiau tywyll, a'r ceffyl a'i ben wedi'i blygu fel petai'n drist wrth dynnu carafán y sipsi drwy'r storm. Mae'r disgrifiad (broliant) ar y clawr cefn yn gwneud i mi fod eisiau darllen y stori, ond heb ddweud gormod am beth sy'n digwydd – pwysig iawn!

Nofel antur yw *Tân ar y Comin* am Tim a'i dad-cu, Alff Boswel, wrth

iddyn nhw gyrraedd comin Glanrhyd un noson yn eu carafán mewn storm fawr. Y noson honno mae Alf yn marw, gan adael Tim ar ei ben ei hun. Y noson honno hefyd mae'r gaseg yn geni ebol. Hanes Tim yn ceisio dod o hyd i gartref a ffrindiau newydd yw'r stori, ond mae'n llawn cyffro a dirgelwch wrth i Tim ddarganfod pob math o bethau am ei deulu, a'r cyfan yn gwneud i chi eisiau darllen y stori hyd at y diwedd! Heb os mae hi'n stori gyffrous a diddorol.

Dwi'n hoff o un cymeriad yn y stori – Gwilym, mab y fferm lle mae Tim yn ceisio ffeindio lle i fyw ar ôl i'w dad-cu farw. Mae Gwilym yn ddoniol ac mae'n hoffi chwarae triciau ar bawb. Dwi ddim yn hoffi'r siopwr cas sy'n edrych i lawr ei drwyn ac yn gwerthu bara wedi llwydo i Tim ar ddechrau'r nofel. Fy hoff ran o'r nofel yw pan mae Tim yn cuddio yng nghut yr hwyaid ar ôl cyrraedd fferm Megan a Gwilym, ac

mae Tim yn cael stŵr. Mae'r rhan yma'n llawn cyffro wrth i Tim ddysgu mwy am ei fam, Sara, ac am y tro cyntaf mae rhywun yn garedig tuag ato ac eisiau ei helpu. Dwi wir ddim yn hoffi'r darn ar gychwyn y nofel pan mae tad-cu Tim yn marw. Mae'n drist iawn.

Mae'r iaith yn y nofel yn fy helpu i'w darllen ac i fwynhau'r stori. Mae'n llawn idiomau fel “hi oedd kannwyll ei lygad”, “o dipyn i beth”, “daw eto haul ar fryn”, a sawl disgrifiad da, fel, “Uwchlaw sŵn y gwynt a'r glaw, a sŵn yr olwynion, gallai glywed yn awr sŵn yr afon.” Dwi'n gallu clywed yr un sŵn hefyd, fel tasen i'n rhan o'r stori! Mae T. Llew Jones yn hoffi geiriau sy'n disgrifio, fel “sarrug ac anghyfeillgar” wrth sôn am un cymeriad diflas. Weithiau mae'n rhoi geiriau byddai bobl yr ardal – lle cafodd T. Llew ei hunan ei fagu, yn Nyffryn Teifi – yn eu defnyddio, fel “boddbran”, ac mae hyn yn gwneud y stori yn fwy real.

#CaruDarllen





#CaruDarlenn



T. Llew Jones *Tân ar y Comin*

Un o nofelau enwocaf T. Llew Jones yw *Tân ar y Comin*, ac fe gafodd ei chyhoeddi gyntaf gan wasg Gomer ym mis Mehefin 1975. Cafodd ei hadargraffu sawl gwaith ers hynny, ac fe ymddangosodd yr argraffiad diweddaraf hwn yn y siopau ym mis Chwefror 2018. Ond er bod y stori dros ddeugain mlwydd oed erbyn hyn mae'n parhau yr un mor boblogaidd ag erioed ac yn un o glasuron llyfrau plant yng Nghymru. Fe ysgrifennodd T. Llew Jones, neu'r Llew Frenin, dros hanner cant o lyfrau i gyd, gan gynnwys nofelau enwog eraill fel *Dirgelwch yr Ogorf* a *Trysor Plasywernen* ond, yn fy marn i, *Tân ar y Comin* yw un o'r goreuon. Enillodd y nofel wobwr Tir na n-Og yn 1977 ac mae sawl cenhedlaeth o blant wedi ei mwynhau. Yn sicr mae clawr blaen y nofel yn denu'r llygad yn syth – clawr tywyll, awgrymog, llawn dirgelwch. Yn y llun ar y clawr mae ceffyl yn edrych yn benisel a blinedig wrth dynnu carafan sipsi trwy storm o fellt a tharanau. Teimlaf bod y clawr yn drawiadol, diddorol a deniadol dros ben. Fe ddaliodd y broliant fy sylw hefyd a fy nennu i ddarlenn y llyfr. Mae'n sôn am Tim y bachgen sipsi sy'n cael ei adael yn unig ac amddifad ar ôl i'w dad-cu farw yn y garafan ar gomin Glanrhyd. Credaf bod y broliant yn effeithiol dros ben oherwydd mae'n crynhoi'r stori yn gynnil heb ddatgelu gormod am yr hyn sy'n digwydd ac mae'n eich annog i ddarlenn y nofel.

Nofel antur yw *Tân ar y Comin* sy'n dilyn


hanes Tim a'i dad-cu, Alff Boswel, wrth iddyn nhw gyrraedd comin Glanrhyd yn hwyr un noson ynghanol storm erchyll gyda'u caseg a'u carafan sipsi. Y noson honno mae Alf, yr hen sipsi, yn marw, gan adael Tim i wynebu'r byd ar ei ben ei hun. Y noson honno hefyd mae'r gaseg yn geni ebol, a dilynwn hanes Tim wrth iddo chwilio am gartref newydd a dod yn ffrindiau gyda Megan a Gwilym, brawd a chwaer sy'n byw un un o'r ffermydd cyfagos. O dipyn i beth, dysgwn fwy am gefndir Tim ac am hanes Sara Boswel, ei fam, a fu farw wrth roi genedigaeth iddo. Heb os mae hi'n stori gyffrous, ddiddorol sy'n eich cadw ar bigau'r drain.

Prif gymeriad y nofel yw Tim Boswel, sipsi ifanc pedair ar ddeg oed. Mae Tim yn amddifad gan iddo golli ei fam adeg ei enedigaeth a does dim syniad ganddo ble mae ei dad. Mae Tim yn gymeriad dewr, call, aeddfed a hoffus iawn. Er nad yw Alf Boswel, tad-cu Tim, yn ymddangos ar ôl y bennod gyntaf, mae'n gymeriad pwysig iawn yn y stori gan taw ef wnaeth fagu Tim er pan oedd yn fabi ac mae gan Tim feddwl y byd ohono. Mae Megan a Gwilym hefyd yn gymeriadau pwysig gan eu bod nhw'n dod yn ffrindiau da i Tim, er nad oedden nhw, fel 'plant y tai', i fod cymysgu â sipsi tlawd. Heb os fy hoff gymeriad yw Gwilym oherwydd mae'n ddoniol a direidus ac mae'n hoffi chwarae triciau ar bawb. Fy nghas gymeriad yw'r siopwr blin sy'n edrych lawr ei drwyn ac yn gwerthu bara wedi llwydo i Tim ar ddechrau'r nofel.

Heb amheuaeth fy hoff ran o'r nofel yw'r olygfa lle mae Tim yn cuddio yng nghut yr

hwyaid ar ôl cyrraedd fferm Megan a Gwilym ac mae Gwilym a'i dad yn dod o hyd i Tim cyn ei lusgo i'r gegin i roi stŵr iddo. Rydw i'n hoffi'r olygfa hon gan ei bod hi'n llawn tensiwn a chyffro a hefyd gan ein bod yn dysgu fod mam Megan a Gwilym yn arfer adnabod Sara Boswel, mam Tim, ac mae hi'n gwahodd Tim i aros gyda nhw. Mae'n olygfa bwysig iawn, yn fy marn i, oherwydd dyma'r tro cyntaf i ni weld unrhyw un yn bod yn garedig tuag at Tim a'r tro cyntaf i Tim fedru ymddiried yn rhywun ers iddo golli ei dad-cu. Fy nghas olygfa yw'r darn ar gychwyn y nofel pan mae tad-cu Tim yn marw gan fod Tim yn torri ei galon yn dilyn hyn.


Nofel wedi ei hysgrifennu yn y trydydd person yw *Tân ar y Comin*. Mae'r arddull yn reit ffurfiol a hen ffasiwn, er enghraifft "...ni fynnai Alff roi'r chwip ar ei gwar". Mae nifer fawr o idiomau cyfoethog yn cael eu defnyddio yn y nofel, er enghraifft "...hi oedd kannwyll ei lygad", "o dipyn i beth", "daw eto haul ar fryn", yn ogystal â sawl disgrifiad effeithiol sy'n chwarae ar synhwyrâu'r darlennydd: "Uwchlaw sŵn y gwynt a'r glaw, a sŵn yr olwynion, gallai glywed yn awr sŵn yr afon." Defnyddiodd T. Llew Jones nifer o ansoddeiriau a chymariaethau cyfoethog wrth ddisgrifio'r cymeriadau, hefyd, er enghraifft "hen greadur sarrug ac anghyfeillgar" a "Fe deimlai mor oer â thalp o rew". Bob hyn a hyn ceir enghreifftiau o dafodiaith Sir Benfro yn y nofel, gan taw dyna lle mae'r stori wedi ei lleoli, er enghraifft "Rwy'ti'n boddran gyda'r ebol o'na byth a beunydd."



Nodweddion Adolygiad o Lyfr

**Fedrwch chi ddod o hyd
i enghreifftiau o'r canlynol
yn y testun?**

- ☐ Berfau'r presennol wrth gyfeirio at y cynnwys
- ☐ Amrywio dechrau brawddegau
- ☐ Ansoddeiriau pwerus
- ☐ Iaith berswadiol
- ☐ Ymadroddion mynegi barn
- ☐ Gwybodaeth gefndirol am y llyfr
- ☐ Cyfeiriad at arddull y llyfr
- ☐ Crynhoi'r cynnwys heb ddweud gormod
- ☐ Dyfyniadau o'r llyfr



Nodweddion Adolygiad o Lyfr

**Fedrwch chi ddod o hyd
i enghreifftiau o'r canlynol
yn y testun?**

- ☐ Berfau'r presennol wrth gyfeirio at y cynnwys
- ☐ Amrywio dechrau brawddegau
- ☐ Ansoddeiriau pwerus
- ☐ Iaith berswadiol
- ☐ Ymadroddion mynegi barn
- ☐ Gwybodaeth gefndirol am y llyfr
- ☐ Crynhoi'r cynnwys heb ddweud gormod
- ☐ Cyfeiriad at arddull y llyfr



Nodweddion Adolygiad o Lyfr

**Fedrwch chi ddod o hyd
i enghreifftiau o'r canlynol
yn y testun?**

- ☐ Y person cyntaf (e.e. rydw i)
- ☐ Berfau'r presennol wrth gyfeirio at y cynnwys
- ☐ Amrywio dechrau brawddegau
- ☐ Ansoddeiriau
- ☐ Mynegi barn
- ☐ Gwybodaeth gefndirol am y llyfr
- ☐ Crynhoi'r cynnwys heb ddweud gormod





Nodweddion Adolygiad o Lyfr

Ewch ati i greu allwedd i'r
gwahanol nodweddion sydd
i'w gweld yn y testun.



☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

Nodweddion Adolygiad o Lyfr

Ewch ati i greu allwedd i'r
gwahanol nodweddion sydd
i'w gweld yn y testun.

☐	_____

☐	_____

☐	_____


☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____



Nodweddion Adolygiad o Lyfr

Ewch ati i greu allwedd i'r
gwahanol nodweddion sydd
i'w gweld yn y testun.

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____

☐	_____



Cynllunio adolygiad

Cam 1 Gwybodaeth gyffredinol

Teitl, awdur, cyhoeddwr, dyddiad
cyhoeddi, gwobrau:

Gwybodaeth am yr awdur:

Clawr (disgrifiad a barn):

Broliant (crynodedb bras a barn):

Cam 2 Crynodedb o'r stori

Genre: _____

Digwyddiadau allweddol/y plot:

Themâu/negeseuon/cwestiynau
a godir:

Arwyddocâd y teitl:

Cam 3 Cymeriadau

Prif gymeriadau, is-gymeriadau,
hoff gymeriad, cas gymeriad,
disgrifiadau o'r cymeriadau –
ansoddeiriau.



Cynllunio adolygiad

Cam 4

Hoff ran/olygfa

Cofiwch ddweud pam.

[illegible]

Cam 5 Arddull

Ffurf – e.e. stori/dyddiadur; naratif – e.e. person cyntaf/trydydd person; technegau iaith – e.e. ansoddeiriau, cymariaethau, idiomau; tafodiaith. Ceisiwch ddefnyddio enghreifftiau.

[illegible]

Cam 6

Barn gyffredinol am y llyfr

Cryfderau? Unrhyw wendidau?
Sawl seren, a pham? Apelio at bwy?
Addas i ba oed? Sut mae'n cymharu
â llyfrau eraill?
COFIWCH – iaith mynegi barn.

[illegible]

Pyramid Geirio:
**Disgrifio'r
clawr**



#CaruDarlenn



**Ansoddeiriau i
ddisgrifio'r clawr**

Mae'r clawr yn ...

Iaith berswadiol

Os ydych chi am fwynhau...
dyma'r llyfr i chi!

Darllenwch y llyfr hwn,
da chi!

Dyma lyfr anodd
i'w roi o'r neilltu!

lliwgar
diddorol

ddi-liw syml
blaen hyfryd wych
ddiflas gyffrous

brysur brydferth fendigedig
ardderchog effeithiol arbennig o ...

ddeniadol unigryw drawiadol frawychus
apelgar awgrymog glyfar hudolus daclus flêr

gynnil gyfareddol bryfoclyd anghyffredin anarferol
swynol lleddfol gyfoethog amlhaenog wefreiddiol gyforiog o ystyr

Cofiwch

- Mae **ansoddair** yn **treiglo'n feddal** ar ôl 'yn'
- **Cenedl enwau**
Y llyfr hwn, y nofel hon, y stori hon, y cymeriad hwn, y clawr hwn, y broliant hwn.
- **Negyddu brawddegau**
e.e. Dydy'r stori/clawr ddim..., dydw i ddim yn credu..., does dim...

Pyramid Geirio:
Disgrifio'r
cymeriad



#CaruDarlenn



Ansoddeiriau i
ddisgrifio'r cymeriad
Mae'r cymeriad yn ...

laith berswadiol

Os ydych chi am fwynhau...
dyma'r llyfr i chi!

Darllenwch y llyfr hwn,
da chi!

Dyma lyfr anodd
i'w roi i lawr!

Cofiwch

- Mae **ansoddair** yn **treiglo'n feddal** ar ôl 'yn'
- **Cenedl enwau**
Y llyfr hwn, y nofel hon,
y stori hon, y cymeriad
hwn, y clawr hwn,
y broliant hwn.
- **Negyddu brawddegau**
e.e. Dydy'r stori/clawr
ddim..., dydw i ddim yn
credu..., does dim...

hen
ifanc
hapus trist

doniol hoffus
diddorol caredig cas
tawel swnllyd direidus

gofalgar anniben arwrol
anturus dewr addfwyn clyfar call
swil hyderus ansicr sionc

balch pwylllog llym ystyfnig milain
nerfus aeddfed piwis beiddgar cymwynasgar
trwsgwl meddylgar cyfoethog
maleisus gwylaidd anonest addfwyn dedwydd

diymhongar uchelgeisiol mawreddog pengaled ystyriol
anystyriol herfeiddiol amharchus gwydn anghyfeillgar
ymosodol cadarn dibynadwy pengaled dyfalbarhaus parchus
brwdfrydig hael hunanol goddefgar unigryw

Pyramid Geirio:
**Disgrifio'r
stori**



#CaruDarlenn



**Ansoddeiriau i
ddisgrifio stori**
Mae'r stori yn ...

laith berswadiol

Os ydych chi am fwynhau...
dyma'r llyfr i chi!

Darllenwch y llyfr hwn,
da chi!

Dyma lyfr anodd
i'w roi i lawr!

hyfryd
ddiddorol

hapus
drist gyffrous anturus
wahanol ddoniol

wych ardderchog arbennig
fendigedig obeithiol glyfar

apelgar unigryw ddychmygus hudolus afaelgar
wallgof deimladwy syml gymhleth benigamp

chwerw-felys amlhaeanog wefreiddiol
anghyffredin bryfoclyd gyfoethog gyfareddol

Cofiwch

- Mae **ansoddair** yn **treiglo'n feddal** ar ôl 'yn'
- **Cenedl enwau**
Y llyfr hwn, y nofel hon, y stori hon, y cymeriad hwn, y clawr hwn, y broliant hwn.
- **Negyddu brawddegau**
e.e. Dydy'r stori/clawr ddim..., dydw i ddim yn credu..., does dim...

Pyramid Geirio: Mynegi Barn



#CaruDarllen



Ymadroddion mynegi barn ... oherwydd ...

Iaith berswadiol

Os ydych chi am fwynhau...
dyma'r llyfr i chi!

Darllenwch y llyfr hwn,
da chi!

Dyma lyfr anodd
i'w roi i lawr!

Rydw
i'n credu/
meddwl ...
Yn fy marn i...

Credaf/teimlad fod...
Fy hoff/nghas... yw...


Yn wir/yn sicr/yn bendant mae ...
Rydw i'n bendant/sicr o'r farn ...

Yn bersonol credaf ...
Rhaid dweud bod ...

Heb os ... Heb os nac oni bai ... Heb amheuaeth ... Does dim amheuaeth ...
Does dim dwywaith ... Yn ddi-ddadl ... Heb ronyn o amheuaeth ...

Cofiwch

- Mae **ansoddair** yn **treiglo'n feddal** ar ôl 'yn'
- **Cenedl enwau**
Y llyfr hwn, y nofel hon, y stori hon, y cymeriad hwn, y clawr hwn, y broliant hwn.
- **Negyddu brawddegau**
e.e. Dydy'r stori/clawr ddim..., dydw i ddim yn credu..., does dim...



Pa lyfr wyt
ti'n mynd
i'w adolygu?



Beth fedri
di ddweud
wrtha i am
y llyfr hwn?



Beth yw
dy hoff ran
o'r llyfr?
Pam?



Beth yw rhan
bwysicaf y
llyfr hwn?




Pa fath o lyfr
yw hwn?



Beth yw prif
ddigwyddiadau'r
llyfr hwn?





Beth yw
dy farn am
y dechrau/
diwedd glo?



Dwed
wrtha i am
y darluniau.



Sawl seren
fyddet ti'n eu
rhoi allan o 5?



I ba genre
mae'r llyfr
yn perthyn?




Dwed wrtha
i am y prif
gymeriadau.



Beth sy'n
gwneud y
llyfr hwn yn
arbennig?





At bwy
fyddai'r llyfr
yn apelio?



Beth yw
prif themâu'r
llyfr hwn?



Beth yw prif
negeseuon
y llyfr hwn?



Sut mae'r
llyfr hwn yn
cymharu gyda
llyfrau eraill?




Beth fedri di
ddweud wrtha
i am awdur
y llyfr hwn?



Ydy'r llyfr
wedi ennill
gwobrau?





Disgrifia'r
clawr.



Ydy'r clawr
yn effeithiol?
Pam?



Pryd cafodd
y llyfr ei
gyhoeddi?



Beth mae'r
broliant yn
ei ddweud?




Pwy yw'r
cyhoeddwr?



Beth yw
arwyddocâd
y teitl?





Ar gyfer pwy
fyddai'r llyfr
yn addas?



Fedri di
grynhoi'r
cynnwys
yn fras?



A fyddet ti'n
hoffi darllen
mwy gan yr
un awdur?



Beth
hoffet ei holi
i'r awdur?




Beth
hoffet ei
newid am
y llyfr?









Wyt ti
wedi darllen
llyfrau tebyg?






#CaruDarllen




#CaruDarlpen

Dewch i
drafod ...



#CaruDarlpen

Dewch i
drafod ...



#CaruDarlpen

Dewch i
drafod ...



#CaruDarlpen

Dewch i
drafod ...



#CaruDarlpen

Dewch i
drafod ...



#CaruDarlpen

Dewch i
drafod ...



Mat Geirfa:

Adolygiad o Lyfr



#CaruDarllen



Amrywio cychwyn brawddegau

Mae'r nofel/stori/plot/
cymeriad yn...

Yn y stori mae...

Llyfr/stori/plot/cymeriad...
yw...

I gychwyn...

Yna...

Yn dilyn hynny...

Yn ddiweddarach...

Ar ôl iddo/iddi...

Wedi hynny...

Erbyn diwedd y stori...

Yn niwedd glo'r stori...

Ar yr un llaw...

Ymadroddion mynegi barn

Rydw i'n meddwl/credu/teimlo...

Yn fy marn i...

Yn wir/sicr/bendant mae...

Credaf/teimlaf fod...

Rydw i'n bendant/sicr o'r farn...

Yn bersonol credaf...

Rhaid dweud bod...

Heb os nac oni bai...

Heb amheuaeth...

Does dim amheuaeth...

Does dim dwywaith...

Yn ddi-ddadl...

Fy hoff gymeriad/olygfa/ran
o'r stori yw ...
oherwydd ...

Mae'r rhan lle mae ... yn ...
oherwydd ...

Negyddu brawddegau

Dydw i ddim yn meddwl/credu/
teimlo...

Dydw i ddim o'r farn bod...

Dydy'r llyfr/stori/awdur/
cymeriadau ddim...

Does dim...

Treiglo ansoddeiriau ar ôl 'yn'

yn ddiddorol yn dawel

yn fywiog yn fawr

yn bendant yn wych

yn gyffrous

Cysylltion

yna, ond, felly, oherwydd,
achos, pan, er mwyn, os, gan,
tra, serch hynny, fodd bynnag,
yn ogystal â, yn groes i,
er hynny



Hunanasesu



A wnes i ddilyn y meini prawf llwyddiant?

☐

☐

Y tro nesaf byddaf yn ...

Hunanasesu



A wnes i ddilyn y meini prawf llwyddiant?

☐

☐

Y tro nesaf byddaf yn ...

Hunanasesu



A wnes i ddilyn y meini prawf llwyddiant?

☐

☐

Y tro nesaf byddaf yn ...

Hunanasesu

A wnes i ddilyn y meini prawf llwyddiant?

☐

☐

Y tro nesaf byddaf yn ...

